**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| P R Hood-Williams | D H Jenkins | M Jones |
| M W Locke | B J Rowlands | M S Tribe |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**

| | |
| --- | --- |
| Y Cyn. Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Y Cyn. Cyril Anderson | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Chris Howell | Pennaeth Gwastraff, Parciau a Glanhau |
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): L James, M H Jones, S M Jones, J W Jones a/ac W G Thomas

---

## 39 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Chris Holley gysylltiad personol ag Eitem 45 y cofnodion.

## 40 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 41 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

42 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

43 **Adolygu'r refeniw wrth gefn**

Roedd y Cynghorydd Rob Stewart a Ben Smith yn bresennol a nodwyd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyngor ar 7 Rhagfyr.

44 **Datganiad Cyllideb Canol Blwyddyn 2023/24 (Llafar)**

Roedd y Cynghorydd Rob Stewart a Ben Smith yn bresennol, a thrafodwyd y canlynol.

- Mae pwysau monitro cyllideb yn y flwyddyn gyfredol. Bydd adroddiad Monitro Cyllideb Chwarter 2 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 21 Rhagfyr.
- Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi'r wythnos nesaf ac yna'r setliad Llywodraeth Leol.
- Mae'r cyngor yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

45 **Ailgylchu a Thirlenwi - Adroddiad Monitro Perfformiad Blynyddol**

Rhannodd y Cynghorydd Cyril Anderson a Chris Howell yr adroddiad, a nodwyd y canlynol.

- Yn 2022, mabwysiadodd y cyngor strategaeth gwastraff newydd a oedd yn nodi ystod o egwyddorion a chamau gweithredu i gyflawni'r targedau ailgylchu statudol a nodir yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru erbyn 2024/25.
- Yn 2022/23 rhagorodd y cyngor ar y targed ailgylchu statudol presennol o 64% drwy gyflawni cyfradd ailgylchu 71.8%. Roedd hyn yn gynnydd o 6.7% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd newid trefniadau ar gyfer gwaredu sachau du o safleoedd tirlenwi i ynni o wastraff. Cyngor Abertawe yw'r cyntaf yn nhabl cynghrair perfformiad ailgylchu ar draws Cymru.
- Dangosodd meincnodau ariannol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o 2021/22 mai Cyngor Abertawe sydd â'r gwariant net isaf fesul gwasanaeth gwastraff cartref ledled Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno sawl cynllun, gan gynnwys cynllun dychwelyd blaendal, deddfwriaeth ailgylchu yn y gweithle ac ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr.
- Ar hyn o bryd mae Cyngor Abertawe yn treialu cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer caniau/gwydr a phapur/chardbord yn ardal St Thomas, sydd hyd yma wedi'i dderbyn yn gadarnhaol. Os yw'n cael ei gyflwyno ar draws Abertawe, byddai'r gost yn niwtral.

46 **Adroddiad Archwilio Cymru - Adolygiad o'r Strategaeth Digidol**

Roedd Sarah Lackenby yn bresennol i rannu ymateb y cyngor i adroddiad Archwilio Cymru. Trafodwyd y materion canlynol.

- Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at adolygiad Archwilio Cymru o holl strategaethau digidol cynghorau ledled Cymru. Roedd yn ceisio sicrwydd bod strategaethau digidol yn cyflawni amcanion lles yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Roedd un argymhelliad ar gyfer gwella, sef dod ag unrhyw ganfyddiadau o'r adolygiad i'r pwyllgorau perthnasol. Mae hyn fel arfer yn digwydd, ond roedd y pandemig wedi effeithio ar y broses arferol.
- Mae'r strategaeth digidol yn cael ei hadolygu'n flynyddol, gofynnodd y Panel i'r adolygiad hwn gael ei graffu hefyd.

47 **Cynllun Gwaith**

Nodwyd y cynllun gwaith.

48 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.08am.

**Cadeirydd**